TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Tystysgrif mewn Tylino Pen Indiaidd Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn wedi ei gynllunio'n benodol i ddatblygu eich sgiliau ymarferol mewn sut i ddarparu triniaeth Tylino Pen Indiaidd i ymlacio a chael gwared â straen.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...y rhai sydd â diddordeb mewn Therapïau Cyflenwol a Chyfannol

...pobl sy'n mwynhau darparu gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd

...y rhai sydd â diddordeb mewn bod yn hunangyflogedig neu weithio mewn amgylchedd clinig

**Cynnwys y cwrs**

Yn ychwanegol at ddatblygu eich sgiliau ymarferol, byddwch yn ennill gwybodaeth gadarn am iechyd a diogelwch, gofal cleient, anatomi a ffisioleg.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r pynciau yr ymdrinnir â nhw ar y cwrs hwn yn cynnwys:

Gofal ac ymgynghori â chleient
Dilyn ymarfer iechyd a diogelwch yn y salon
Tylino Pen Indiaidd
Hyrwyddo a gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau

Byddwch yn datblygu eich sgiliau i ddarparu triniaethau Tylino Pen Indiaidd i safon uchel a bydd hyn yn eich galluogi i ddarparu eich gwasanaethau eich hun i gleientiaid mewn clinig neu ar sail hunangyflogedig.

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs, fodd bynnag, mae sgiliau cyfathrebu da ac ymrwymiad i'r cwrs yn hanfodol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r cymhwyster wedi'i gymeradwyo a'i gefnogi gan BABTAC ac yn cynrychioli'r gweithwyr yn y sector.

Yn dilyn cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus bydd cyfleoedd ichi symud ymlaen i gyrsiau nos Therapïau Cyflenwol eraill megis:

Aromatherapi
Adweitheg
Tylino Cerrig Poeth
Tylino'r Corff

Mae'n ofynnol ichi wisgo trowsus du, crys T du ac esgiliau du addas, fodd bynnag, mae gwisg clinig ar gael pe dymunech ei phrynu. Bydd gwybodaeth ar gael ar noson gyntaf y cwrs.